



**DEDDF DRWYDDEDU 2003
TRWYDDED ANHEDDAU**

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council



ydded anheddau

PRM 0238 (02/01/2018)

- Manylion am y safle

Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad

Y NAGS HEAD

14 STRYD Y BONT

**Tref bost
LLAMBED**

**Cod Post
SA48 7HG**

Rhif ffôn

Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau

NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED

Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded

ADLONANT WEDI EI REOLEIDDIO

FFILMAU

CERDDORIAETH FYW

CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO

UNRHYW BETH SY’N DEBYG I’R HYN SY’N CAEL EI GYNNWYS O FEWN

CERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO NEU

PERFFORMIADAU DAWNS

DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS

CYFLENWI ALCOHOL

Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy

CYFLENWI ALCOHOL

MON – THU : 0900 – 0130 yn ddyddiol

GWE, SAD, SUL : 0900 - 0230

ADLONANT WEDI EI REOLEIDDIO

CERDDORIAETH FYW:

SUL – IAU: 0900 – 2400 yn ddyddiol

GWE a SAD: 0900 – 0030

CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO:

LLUN – IAU: 0900 – 2400 yn ddyddiol

GWE a SAD: 0900 – 0030

SUL: 0900 - 0100

FFILMIAU

UNRHYW BETH SY'N DEBYG I'R HYN SY'N CAEL EI GYNNWYS O FEWN

CERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO NEU

PERFFORMIADAU DAWNS

PERFFORMIADAU DAWNS

LLUN – MER: 1100 – 2300 yn ddyddiol

IAU - SUL : 1100 - 0130

DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS

IAU, GWE & SAD: 2300 - 0130

AMSERAU ANSAFONOL:

Awr ychwanegol a 30 munud yn amser yfed i fyny ar yr adegau canlynol:

Diwrnod San Ffolant

Solstis Haf 21ain o Fehefin

Solstis y Gaeaf 21 Rhagfyr

Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan

Carnifal Llanbedr Pont Steffan

Gwyl Fwyd Llanbedr Pont Steffan

Calan Gaeaf -

BBC Plant mewn Angen: 3ydd Gwener ym mis Tachwedd

**Penwythnos Old Boys Old University Prifysgol Llanbedr Pont Steffan: 1af
neu 2il Dydd Gwener ym mis Rhagfyr**

**Ball Nadolig Prifysgol Llanbedr Pont Steffan: Hanner hanner dydd Gwener y
tymor cyntaf**

**Prifysgol Llanbedr Pont Steffan Ionawr Croeso Dawnsio Nôl: Yn gyffredinol
yr ail ddydd Gwener ym mis Ionawr.**

Noson Santes Dwynwen: Dydd Sadwrn agosaf at 25 Ionawr

Dawns Rag: Fel arfer yr 2il Gwener ym mis Chwefror

Dydd Gwyl Dewi : Gwener agosa at 1af Mawrth

**Parti noswaith etholiad Prifysgol Llanbedr Pont Steffan: Fel arfer y Gwener
cyn ola o'r ail dymor.**

Parti Diwedd Arholiadau Llanbedr Pont Steffan: Fel arfer 5ed Dydd Gwener yn y 3ydd Tymor.

Gemau Rygbi'r Chwe Gwlad yn ymwneud â Chymru neu Loegr.

Nos Galan o 1030 31 Rhagfyr i 0430 2il Ionawr

Noson y Diwrnod Bocsio tan 0430 awr

Gwener, Sadwrn a Haul cyn Gwyliau Banc Mon trwy gydol y flwyddyn - 1 Awr ychwanegol a 30 munud

Dydd Gwener Du (Bob blwyddyn y ddau nos Wener cyn y Nadolig tan 0430

Digwyddiadau Prif Chwaraeon yn cael eu cynnal mewn rhannau eraill o'r byd a thu allan i BST a GMT hy: Rygbi, Pêl-droed, Criced, Bocsio, Pêl-droed Americanaidd, Gyrru Ceir G.P i werthu Bwyd, Dioddydd Poeth ac Alcohol Poeth 30 munud cyn y digwyddiad a i gloi 30 munud yn dilyn y digwyddiad.

Oriau agor y safle

LLUN – IAU: 0900 – 0200 yn ddyddiol

GWE – SAD: 0900 - 0300

SUL: 0900 – 0200

AMSERAU ANSAFONOL

NOS CALAN GAEAF – Gweler uchod ynglyn a amserau ansafonol

Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno

AR AC ODDI AR Y SAFLE

Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle

NICHOLAS WILLIAM WRIGHT

Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol

NICHOLAS WILLIAM WRIGHT

Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol

CER 1281

CYNGOR SIR CEREDIGION

1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.

(2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-

(a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu

(b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.

(3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.

(2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.

(3) (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.

(4) Yn yr adran hon -

Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae

"corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

3 Amod gorfodol: goruchwylio drysau

(1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

(2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -

(a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu

(b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-

(i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu

(ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).

(3) At ddibenion yr adran hon -

(a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a

(b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

(a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);

(b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

$$P = D + (D \times V)$$

pan mai –

(i) P yw'r pris a ganiateir

(ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

(iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

(c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw –

(i) Deiliad y drwydded safle,

(ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu

(iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

(d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr “treth ar werth” yw treth ar werth sy’n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw’r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i’r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai’r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw’r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi’i dalgrynnu i fyny i’r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw’r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod (“y diwrnod cyntaf”) yn wahanol i’r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf (“yr ail ddiwrnod”) o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu’r dreth ar werth.

(2) Mae’r pris a ganiateir sy’n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy’n digwydd cyn i’r cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio)
2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

Cyffredinol

- Mae'r mathau o adloniant rheoledig a gynigir yn adfer yr adloniant tafarn arferol nad oedd yn rheoledig gynt
- Ni nodwyd unrhyw gamau newydd mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu, ac eithrio'r isod
- Rwyf wedi ystyried telerau eich polisi trwyddedu lleol wrth baratoi'r cais hwn.

b) Atal troseddau ac anhrefn

- Bydd ymestyn yr oriau agor am 30 munud ar ôl gorffen gwerthu alcohol yn hyrwyddo'r amcan hwn, oherwydd bydd y ddiod olaf yn cael ei hyfed yn llai cyflym, gan ganiatáu i bobl ymwasgaru'n raddol.
- Bydd y staff yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw pobl sy'n dod i'r safle'n cario unrhyw gyffur anghyfreithlon.
- Bydd y staff yn archwilio pob rhan o'r safle'n rheolaidd yn ystod oriau masnachu i sicrhau nad oes unrhyw un yn cymryd cyffuriau ar y safle.
- Ni chaniateir mynediad i unrhyw un sy'n meddu ar gyffuriau anghyfreithlon
- Arddangosir rhybudd am y polisi cyffuriau yn ardal drwyddedig y safle.

c) Diogelwch Cyhoeddus

- Mae'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a thân yn ddigonol i gwrdd â'r amcan hwn. Ni fydd angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol i hyrwyddo'r amcan hwn (ac eithrio'r isod).
- Bydd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu ddeiliad trwydded y safle'n sicrhau bod yna gydymffurfio â'r holl fesurau atal tân a mesurau diogelwch tân eraill fel bo'n ofynnol gan yr awdurdod tân.
- Bydd yr holl osodiadau trydan ar y safle, gan gynnwys y weirio, y ffitiadau a'r cyfarpar yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel yn unol â gofynion yr Awdurdod.
- Bydd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu ddeiliad trwydded yn sicrhau bod yna gydymffurfio â mesurau iechyd a diogelwch fel bo angen.

d) Atal niwsans cyhoeddus

- Os bydd yr arsylwad yn pennu bod lefel y sŵn yn debygol o darfu ar breswylwyr eiddo cyfagos, yna bydd y sŵn yn cael ei ostwng i lefel nad yw'n tarfu.

e) Amddiffyn plant rhag niwed

- Bydd gofyn dangos prawf oedran – derbynnir dogfennau adnabod gyda llun yn unig.
- Bydd unrhyw gyfyngiadau o ran caniatáu mynediad i blant yn cael eu harddangos y tu allan i'r safle.
- Caniateir i blant dan 18 oed i fod yn ardal y bar tan 2100 os ydyn nhw yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

- Caniateir mynediad heb gyfyngiad i blant ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn yr ystafell ddigwyddiadau, os ydyn nhw yng nghwmni oedolyn cyfrifol.
- Gosodir hysbysiadau ger y peiriannau difyrru a'r peiriant gwerthu sigarêts yn nodi'r cyfyngiadau oedran.
- Gosodir hysbysiadau o fewn y safle yn nodi ym mha ardaloedd y caniateir plant.

Atodiad 3 – Amodau atodol yn dilyn gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu

Amodau a gytunwyd rhwng John Evans Pc791, Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, a'r Cyfreithwyr Edwards Geldard, dyddiedig 5ed Medi.

Amodau a gytunwyd:

- a. Amser terfynol gwerthu alcohol wedi'i newid i 0030 Llun i Iau, ac 0130 ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul, gyda 30 munud ar gyfer gorffen diodydd.
NAWR WEDI'I DDIWYGIO YN AMOD 1 ISOD.
- b. Amser terfynol darparu cerddoriaeth fyw i fod yn 12 canol nos.
- c. Amod i'w ychwanegu at y rhaglen weithredu i gydymffurfio ag atal troseddau ac anhrefn: "Ni oddefir unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol, na phobl feddw, gwerylgar a threisgar. Hysbysir yr heddlu ynghylch unrhyw broblemau, os yn briodol."
- d. Caniateir mynd ag alcohol mewn cynhwysydd agored o'r safle er mwyn ei yfed yn y ddwy ardd gefn yn unig, ac nid y tu allan i flaen yr adeilad.

Gwrandawriad Adolygu Trwydded a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr 2013 yn Siambr y Cyngor, Penmorfa

1. Diwygio oriau'r gweithgareddau trwyddedadwy. "Gwener a Sadwrn – diwedd pob gweithgaredd trwyddedadwy 00:30 + 30 munud". Oriau eraill yr wythnos i aros yn unol â'r drwydded bresennol
2. Goruchwylio drysau
 - i. Bob dydd Sadwrn, p'un ai oes digwyddiad ai peidio, ac o 2300 hyd ddiwedd yr oriau agor rhaid cyflogi un goruchwyliwr drysau SIA cofrestredig ar y safle.
 - ii. Bob dydd Gwener a dydd Sadwrn o 2300, 2 oruchwyliwr drysau SIA ar gyfer unrhyw ddigwyddiad h.y. POB adloniant cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth a recordiwyd YN UNIG.
3. Nos Calan i barhau yn unol â'r drwydded bresennol.
4. Oriau agor: + 30 munud ar nos Wener a nos Sadwrn
5. Ni fydd yr ardd gwrw yn y cefn yn cael ei defnyddio ar ôl 2200 AR UNRHYW NOSON.
6. Camerâu CCTV yn yr ardaloedd canlynol: pob ystafell dan do ar y safle, blaen yr adeilad, yr ardd gwrw yn y cefn, yr ardal ysmygu yn yr ardd gwrw – i'w gosod a'u rhoi ar waith o fewn wyth wythnos, sef erbyn 13eg Chwefror 2014, a hynny'n unol â gofynion Heddlu Dyfed Powys.

Gofynion CCTV Heddlu Dyfed Powys fel yr oeddent ar ddyddiad y gwrandawriad adolygu, sef 19/12/2013

- 1. Rhaid i'r holl ddelweddau fod o ansawdd da, a gallu perfformio lleiaf y camera'n ddigonol ar gyfer adnabod unigolion**
- 2. Rhaid bod y delweddau'n rhai lliw**
- 3. Yr holl ddelweddau yn ystod oriau gweithgareddau trwyddedadwy i'w cadw am gyfnod o 30 diwrnod.**
- 4. Rhaid i'r system CCTV fod ar waith trwy'r amser, ac os bydd nam yn codi, rhaid rhoi gwybod i'r heddlu a gwneud trefniadau di-oed i drwsio'r nam**
- 5. Rhaid i'r holl ddelweddau fod ar gael i'w gwylio ar gais swyddog heddlu, a dylai copi o'r delweddau hynny fod ar gael yn ddi-oed i'r swyddog heddlu**
- 6. Ar bob adeg yn ystod y cyfnod gweithredu ar y safle, rhaid bod yna berson cymwys ar y safle all ymateb a throsglwyddo unrhyw ddeunydd a recordiwyd yn gyflym i gyfrwng storio symudadwy. Mae fformat ffon gof, CD neu DVD yn dderbyniol i'r heddlu. Bydd y prif gopi ar gael os bydd yr heddlu'n gofyn am ei weld.**
- 7. Rhaid i'r system ymgorffori dull o drosglwyddo delweddau o'r gyriant caled i fformat y gellir ei chwarae'n ôl ar unrhyw gyfrifiadur sy'n defnyddio Microsoft Windows neu Mac. Rhaid i'r feddalwedd sydd ei hangen i lwytho a gwylio delweddau a recordiwyd fod un ai wedi'i chynnwys fel rhan o'r system weithredu safonol a osodwyd, neu gael ei gosod i'r cyfrwng recordio pan fydd y data'n cael ei gopïo i'r cyfrwng hwnnw.**
- 8. Rhaid bod yna gamerâu'n gwylio'r holl ardal drwyddedig a'r mynedfeydd ac allanfeydd, ac ni ddylid cael unrhyw ardaloedd cudd neu aneglur. Mi fydd hyn yn mynd i'r afael â phroblemau**

sydd wedi codi y tu allan i'r safle wrth i gwsmeriaid gyrraedd neu adael.

7. Diwygio Atodiad 3 (pwynt d uchod).
8. Dileu amod e, Atodiad 3 ynghylch yr ardal ysmegu.
9. Dileu amod f, Atodiad 3 ynghylch deddfwriaethau eraill.
10. Dileu amod g, Atodiad 3 ynghylch yr amserau mynediad olaf (wedi'u diwygio erbyn hyn)

Amodau eraill a osodwyd yn y Gwrandawriad Adolygu 19/12/2013

11. Amser mynediad olaf ar gyfer unrhyw gwsmer ar nos Wener a nos Sadwrn yw 2330.
12. Y ddau seinydd sydd uwchlaw'r drws ar hyn o bryd yn yr ardal ysmegu allanol i'w symud oddi yno o fewn 7 diwrnod.
13. Telerau Cynlluniau Rheoli Sŵn i'w hymgorffori yn y drwydded:
 - i. Drysau a ffenestri i fod ar gau am 10.00pm ond heb eu cloi – i'w weithredu ar unwaith.
 - ii. Hysbysiadau i'w gosod ger drysau cefn yr Ystafell Ddigwyddiadau'n rhybuddio cwsmeriaid bod y drysau a'r ffenestri i fod ar gau ar ôl 2200 (10.00pm.)
I'w weithredu o fewn un mis (erbyn 19eg Ionawr 2014).
 - iii. Yr holl staff i fod yn ymwybodol o gynnwys y Cynllun Rheoli Sŵn, copi i'w gadw tu ôl i'r bar, ac i fod ar gael i'r holl staff.
I'w weithredu ar unwaith.
 - iv. Djs ac unrhyw staff eraill sy'n ymweld â'r safle i fod yn ymwybodol o'r angen i gadw'r drysau ar gau ar ôl 10.00pm,
I'w weithredu ar unwaith.
 - v. Staff i fonitro lefel y sŵn o'r tu allan fel rhan o'r drefn reolaidd.
I'w weithredu ar unwaith.
 - vi. Ffens/sgrin gadarn i'w chodi yn yr ali tu allan ger y gât/wal i mewn i'r ardd furiog.
I'w chwblhau o fewn un mis (erbyn 19eg Ionawr 2014).
 - vii. Hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy i'w harddangos ger pob mynedfa yn gofyn i'r cyhoedd i barchu anghenion y trigolion lleol, a gadael y safle a'r ardal yn dawel.
I'w weithredu o fewn un mis (erbyn 19eg Ionawr 2014).

O GANLYNIAD I'R CYNLLUN RHEOLI SŴN, MAE AMODAU A OSODWYD AR Y RHAGLEN WEITHREDU WREIDDIOL DAN NIWSANS CYHOEDDUS SY'N

AILADRODD NEU'N MYND YN GROES I'R CYNLLUN WEDI'I DILEU I OSGOI
DRYSWCH.

ATODIAD 4

CYFARFODYDD CYFRANOGOL YN DILYN CAIS AMRYWIAD LLAWN
CYFARFODYDD A GYNHALIWYD GYDA'R HEDDLU A'R PRESWYLLWYR
LLEOL AR 18 a 19 Rhagfyr 2017

CYNYRCHIOLYDD YR HEDDLU - JOHN EVANS
PRESWYLAU LLEOL - MR A MRS JONES
NICK WRIGHT A GARETH REES (CYNGOR SIR CEREDIGION).

Yn ystod y cyfarfodydd, trafodwyd yr oriau y gofynnwyd amdanynt (gan gynnwys amseriadau ansafonol) ynghyd ag ardaloedd perthnasol eraill mewn cysylltiad â gweithredu a rheoli'r eiddo.

Roedd pawb sy'n bresennol wedi cael taith o amgylch yr eiddo i weld y newidiadau a'r adnewyddu.

Ystyriwyd yn briodol adolygu amserlen weithredol amodau trwydded yr eiddo ac i ffurfioli rhestr o amodau fydd yn hawdd eu rheoli

1. Drysau a ffenestri i'w cau o 22:00 ymlaen (heb eu cloi).
2. Hysbysiadau i'w gosod yn y drysau cefn yn yr ystafell swyddogaeth sy'n hysbysu cwsmeriaid bod drysau a ffenestri i'w cau o 22:00 ymlaen.
3. Bod yr holl staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o gynnwys y cynllun rheoli sŵn.
4. Staff i ymgymryd â monitro rheolaidd o lefelau sŵn y tu allan.
5. Hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy i'w harddangos ym mhob drysfa fynedfa ac allan sy'n gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol a gadael yr eiddo a'r ardal yn dawel.

CCTV

CCTV Heddlu Dyfed-Powys - CYFARFOD MEDIATION DIWYGIEDIG YN
YSTOD 18fed Rhagfyr 2017 (2 ddiwygiad mewn llythrennau italig).

1. Rhaid i'r holl ddarnau fod o ansawdd da ac o leiaf y gallu perfformiad sy'n ddigon i adnabod unigolion.
- 2 Rhaid iddo fod mewn lliw.
- 3 Pob llun yn ystod y gweithgareddau Trwyddedadwy i'w cadw am gyfnod o 30 diwrnod.

4 Rhaid i'r system CCTV weithredu'n barhaus, ac os bydd diffyg yn codi mae'n rhaid i'r heddlu gael ei hysbysu a rhaid gwneud trefniadau ar unwaith i unioni'r bai.

5 Rhaid i'r holl ddarnau ar y galw fod ar gael i swyddog yr heddlu i'w gweld a chopi o'r darnau hynny ar gael ar unwaith i swyddog heddlu o fewn 3 awr.

6 Ar bob adeg yn ystod gweithredu'r adeilad rhaid bod person cymwys ar yr eiddo sy'n gallu ymateb a gallu ymgymryd ag allforio recordiadau yn gyflym i gyfrwng storio symudadwy. Dim ond CD, DVD neu fformat cof yn dderbyniol i'r heddlu. Bydd y prif gopi ar gael i'r heddlu ar gais.

7 Rhaid i'r system ymgorffori dull o drosglwyddo delweddau o'r galed caled i fformat y gellir ei chwarae yn ôl ar unrhyw un Cyfrifiadur cydnaws Microsoft Windows. Y cais Rhaid i'r meddalwedd sydd ei angen i lansio a gweld delweddau cofnodedig naill ai'n cael eu cynnwys fel rhan o'r Microsoft safonol sy'n gweithredu system wedi'i osod neu ei osod i'r cyfryngau a gofnodwyd pan fydd y data yn cael ei gopïo i'r cyfryngau hwnnw.

8 Rhaid i'r holl ardal drwyddedig gydag ardaloedd mynediad ac ymadael gael eu cwmpasu gan gamerâu, ac ni ddylid bod unrhyw ardaloedd cudd neu guddiedig. Bydd hyn yn delio â materion sydd wedi codi y tu allan i'r eiddo pan fydd cwsmeriaid wedi cyrraedd neu'n gadael.

Amodau sy'n gyson â'r Atodlen weithredu

- a) Cyffredinol
- b) Atal troseddau ac anrhefn
- Ymgymerir â chwiliadau rheolaidd gan staff o bob rhan o'r safle yn ystod oriau masnachu er mwyn sicrhau nad yw defnydd cyffuriau yn digwydd ar yr eiddo.
- Bydd CCTV (Fel yr uchod) yn cofnodi'r meysydd canlynol - Blaen yr adeilad, Ardal y Bar, Ystafell Swyddogaeth, Ardal Ysmygu ac Ardd y cefn - i gynnwys yr holl ddrysau mynediad.
- Bydd yn dod yn aelod gweithgar o unrhyw Pubwatch / BOBB neu gynllun tebyg a sefydlwyd yn yr ardal.
- Ni chaniateir mynediad i unrhyw berson a geir mewn meddiant cyffuriau anghyfreithlon a bydd yr Heddlu yn cael gwybod am y mater.
- Rhaid arddangos hysbysiad sy'n nodi'r polisi cyffuriau yn ardal drwyddedig yr eiddo.

Bydd o leiaf 1 person drws trwyddedig SIA yn cael ei gyflogi yn yr eiddo ar y diwrnodau canlynol o 10pm tan ddiwedd mangre: Diwrnod y Bocs, Gwener cyn y Nadolig, Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan, Gŵyl Fwyd Llanbedr Pont Steffan, Nos Galan, Swyddogaethau cyhoeddus yn y swyddogaeth gefn ystafell lle bo tocynnau'n cael eu gwerthu, neu codir ffi mynediad.

c) Diogelwch y Cyhoedd

- Ardal ysmegu a'r ardd i'w goleuo'n dda.
- Casgliadau gwydr a photel yn rheolaidd.
- Pecyn Cymorth Cyntaf i fod ar gael yn yr adeilad.


ch) Atal niwsans cyhoeddus

- Os yw'r arsylwi yn penderfynu bod seibiant sŵn ar lefel sy'n debygol o achosi aflonyddwch i breswylwyr yr eiddo yn y cyffiniau, yna bydd maint y gerddoriaeth yn cael ei leihau i lefel nad yw'n peri aflonyddwch.
- Drysau a ffenestri i'w cau o 22:00 ymlaen (heb eu cloi).
- Hysbysiadau i'w gosod yn y drysau cefn yn yr ystafell swyddogaeth sy'n hysbysu cwsmeriaid y bydd drysau a ffenestri i'w cau o 22:00 ymlaen.
- Bod yr holl staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o gynnwys y cynllun rheoli sŵn.
- Staff i ymgymryd â monitro rheolaidd o lefelau sŵn y tu allan.
- Hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy i'w harddangos ym mhob drysfa fynedfa ac allan sy'n gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol a gadael yr eiddo a'r ardal yn dawel.
- Ni ddylid gwacáu poteli gwydr y tu allan ar ôl 10pm.
- Chwarae cerddoriaeth fyw a recordiedig i'w gynnal yn yr adeilad yn unig.
- Cerddoriaeth gefndir achlysurol yn unig i'w chwarae yn yr ardal ysmegu a'r ardd gefn.
- Drysau ystafell swyddogaeth allanol y tu cefn i'w newid i ddrysau allanol di-dor gyda chaeadau mewnol.

e) Diogelu plant rhag niwed

- Bydd angen prawf o oedran - dim ond adnabod ffotograffig fydd yn dderbyniol.
- Bydd Polisi Her 25 yn weithredol, gyda staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn cyfarwyddo peidio â gwasanaethu alcohol i bobl dan 18 oed.
- Rhaid i blant ddigwydd i ddigwyddiadau preifat yn yr ystafell swyddogaeth os bydd oedolyn cyfrifol yn cyd-fynd â nhw.
- Bydd hysbysiadau yn cael eu harddangos y tu mewn i'r adeilad gan nodi'r ardaloedd lle caniateir plant.
- Rhaid i blant dan 16 oed fod gydag oedolyn yn ardaloedd Bar y fangre.
- Ni chaniateir unrhyw blant yn yr ardal drwyddedig ar ôl hanner nos ar unrhyw nos, ac eithrio plant deilydd trwydded y'r eiddo neu blant sy'n byw ar y safle.

Atodiad 5 – Cynlluniau Annex 5 - Plans



— Kerbed Area
● Fire Extinguishers

GROUND FLOOR LAYOUT

ess Kincaid Leach ARCHITECTS/ ARCHITECTES Cheeshaif, Ffos-y-fryn, Blaenau, Wrecsam, Gwynedd, LL20 9JG 01978 524444 E: c.cheeshaif@ess-kincaid.co.uk E: j.kincaid@ess-kincaid.co.uk W: www.ess-kincaid.co.uk	GLANRHYD, LLANFAIR-CLYDDOGAU, LANSRTEIEN, CEREDIGION SA48 8LJ T: 01570 493406/ 493695 E: c.cheeshaif@ess-kincaid.co.uk E: j.kincaid@ess-kincaid.co.uk W: www.ess-kincaid.co.uk	3 RUE DES OLIVERES, ST PIERRE DES CHAMPS 13220 AULDE FRANCE T: +33 (0)468 70 45 70 E: zmarvin@esskincaidleach.co.uk W: www.ess-kincaid.co.uk	Project Title: Licence Application The Kings Head 14 Bridge St Lampeter SA48 7HG		Client Name: Mr N Wright	
			Drawing Title: Licence Application Licence Layout		Drawn by: CBH Checked by: CBH	Date: 2-11-2017 DLP File Name: 17-05_Kings Head
Revision Notes/ Notes de revision	No.	Date	Issue Notes/ Destinataire			